Medi 2008 **Rhifyn 170**

Am goed y wig a'u lliwiau'n dân,
Am adar bach a'u melys gân,
i ti, O Dad, diolchwn

Gair i'n gilydd

Nid oes angen pwysleisio pwysigrwydd y cyfnod hwn, rhwng ymddeoliad Pryderi a galw gweinidog newydd, yn hanes Capel y Morfa. Mae'n gyfnod o gyfle arbennig, cyfnod all fod yn hynod o fendithiol. Mae'n ein hysgogi i ystyried o'r newydd beth yw natur eglwys, a beth yw'n ymrwymiad ninnau fel unigolion i'r achos. Ystyriwn paham rydym am fod yn aelodau o'r eglwys yng Nghapel y Morfa, beth yw'n rhan fel unigolion i'w gwaith a beth allwn gyfrannu iddi.

Mae i eglwys leol nifer o nodweddion a swyddogaethau, ond yn bennaf oll, cymuned yw - teulu'r eglwys. Dyna sydd yn ein harwain ac yn rhoi pwrpas i'n bodolaeth fel eglwys. Mae'r eglwys yn rhoi canolbwynt i'n haddoliad, gan gofio mai rhywbeth y gwnawn gyda'n gilydd yw addoli. Mae hefyd yn rhoi cyd-destun i ni gynnal ein gilydd, i ofalu am ein gilydd ac i atgofio'n gilydd o werthoedd ein ffydd. Mae'n gymdeithas oddefgar sy'n derbyn – yn wir, yn croesawu - amrywiadau a gwahaniaethau, lle mae agweddau gwahanol yn cyfoethogi'n profiadau ac yn ymestyn gorwelion.

Derbynia'r eglwys leol gyfrifoldeb am lywio a hybu datblygiad ysbrydol bob yr un ohonom, gan ddechrau yn yr addewid mewn gwasanaeth bedydd i gynnal ac addysgu, ac yn parhau tra byddwn y rhan o'r teulu.

Trwy'r eglwys leol cawn gysylltiad gyda'r eglwys fyd-eang a chyda traddodiadau eraill; cawn ein hatgofio am gyfoeth amlochrog ymgais pobl i ddeall eu hamgylchedd drwy ffydd a chred.

Yn bennaf, efallai'r eglwys leol yw'r modd mwyaf effeithiol o dystio a chenhadu. Cofiwn am bwysigrwydd sylfaenol yr eglwys sy'n gwasanaethu ('the servant church'), ac yng Nghapel y Morfa

mae datblygiad y Morlan yn arwydd o'n hymrwymiad i'r gymuned ehangach.

Cyfnod o gyfle sydd o'n blaen: i gydweithio, i gynnal ein gilydd, i gefnogi'r achos ac i gyfrannu at waith y Deyrnas yn ei amryfal ffyrdd. Dyma gyfle i ni gyd fel aelodau a ffrindiau i gymryd ein cyfrifoldeb o ddifri, i gadarnhau'n teyrngarwch ac i 'ddangos ein hochr'; cyfle i sicrhau fod yr eglwys yn parhau i fod yn fyw, yn ymroddedig ac yn berthnasol i'r dyfodol. Mae'r eglwys yn cynnig ystod o fendithion i ni - beth allwn ni gyfrannu i ddyfodol y teulu yma yng Nghapel y Morfa?

Noel Lloyd

Gwasanaeth yng Nghapel y Morfa, 20 Gorffennaf 2008

Newyddion

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau…

i Richard a Jane Griffiths, Gwesty'r Richmond ar enedigaeth Ffion Enfys ac i mam-gu, sef Mrs Betty Griffiths.

i Aled a Lyn Hughes ar enedigaeth Catrin Kenza – wyres gyntaf i Islwyn a Mair Hughes.

i Siân a Keith Richards ar enedigaeth William, brawd i Elinor ac ŵyr i Hefina a Laurie Wright.

i Curig Huws a Laura Davies ar eu priodas yng Nghaerdydd ddiwedd Gorffennaf.

i Bethan Bryn ar gael ei hurddo er anrhydedd i'r Wisg Wen yn yr Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Gaerdydd.

i Hywel Griffiths, Llain Deg, Comins Coch (neu Howl Gruff) ar gyhoeddi cryno ddisg yn ddiweddar. Mae'n adnabyddus erbyn hyn yn y byd canu cyfoes yng Nghymru. Bu hefyd o gymorth gyda'r sain a'r golau yn Y Morlan yn ystod cyngerdd Y Gyngres Geltaidd.

i Daniel Rowbotham am gael ei ddewis i gymryd rhan yn y sioe *My Fair Lady* yn ystod yr Haf a phlant yr Ysgol Sul a fu'n cymryd rhan mewn sioeau yng Nghanolfan y Celfyddydau ac mewn cystadlaethau chwaraeon.

Llongyfarchiadau i'n pobl ifanc sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau TGAU a Lefel A. Dymunwn yn dda iddynt wrth barhau gyda'u hastudiaethau neu i'r rhai sy'n dechrau ar yrfa newydd. Hefyd llongyfarchiadau a dymuniadau gorau...

i Richard Jones, 104 Maesceinion ar dderbyn gradd doethuriaeth mewn cerddoriaeth ym Mhrifysgol Sheffield. Cafodd Geraint a Iola Jones, ei ewythr a modryb, fraint o fynychu'r diwrnod graddio gyda'i rieni.

i Dylan Hughes ar dderbyn gradd mewn daearyddiaeth a chynllunio yng Nghaerdydd, Cynyr Rhys ar dderbyn gradd yn y gyfraith yn Aberystwyth a Gwydion Rhys ar gwblhau ei hyfforddiant fel meddyg yn Ysgol Feddygol Nottingham.

Croeso adref i Lisa Karyia Fenton wedi treulio cyfnod yn gwneud gwaith gwirfoddol yn Swaziland dros yr Haf. Edrychwn ymlaen at glywed ychydig am y profiadau arbennig iawn a gafodd yno.

Anfonwn ein cofion at aelodau sydd wedi derbyn triniaeth neu wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ystod yr Haf. Yr ydym yn cofio amdanynt yn ein gweddiau:
Eunice Davies, Rhiannon Hughes, Wyn Hughes, Tomos Llywelyn, Mary Morgan, Enid Phillips, Dora Protheroe a Bessie Richards.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mary a Brian Thomas, Caryl a Nia, wedi i dad Mary farw ddechrau Awst, ychydig fisoedd yn unig wedi iddynt golli tad Brian mor ddisymwth. Anfonwn ein cofion anwylaf atynt fel teulu.

Cydmdeimlwn hefyd â Non Walters a'r teulu ar farwolaeth ei mam hithau yn yr un ysbyty, Glangwili, ddechrau Awst, sef Mrs. Eiry Edwards o Borthyrhyd a chofiwn amdanynt i gyd yn eu hiraeth.

Diolch *Dymuna Mrs Maggie Edwards, Llys yr Hen Ysgol, ddiolch yn gynnes iawn i aelodau Capel y Morfa am y blodau, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 90 oed. Roedd yn eu gwerthfawrogi yn fawr iawn.*

Hoffai Tomos Llywelyn (a Mam a Dad a Marged) ddiolch o waelod calon am holl gonsyrn, gofal a gweddiau teulu'r Morfa yn ystod ac yn dilyn ei gyfnod yn ysbyty'r Waun yng Nghaerdydd. Mae'n braf iawn cael dweud fod Tomos bellach yn gwella'n rhyfeddol wedi ei lawdriniaeth ac yn edrych ymlaen yn fawr at ddechrau ym Mhenweddig ddechrau Medi!

Yr Ysgol Sul Bydd Ysgol Sul y Plant yn ail-ddechrau ar ddydd Sul, Medi 7fed. Edrychwn ymlaen at y tymor newydd ac at ddefnyddio'r llyfrau newydd yn y gyfres *Golau ar y Gair.*

Hwyl Hwyr Bydd Clwb Hwyl Hwyr yn ailddechrau nos Lun, 22ain o Fedi, rhwng 3.45 a 5.00 yn Festri'r Morfa – croeso i unrhyw blentyn rhwng 7 ac 11 oed. **Mae gwir angen cynorthwywyr i helpu gyda sesiynau Hwyl Hwyr yn ystod y tymor hwn**. Os oes unrhyw fodd i chi helpu mewn unrhyw ffordd, plis cysylltwch â Gwenan ar 01970 626477.

Clwb Ieuenctid Bydd y Clwb Ieuenctid yn ail-ddechrau nos Wener 19 Medi 2008 rhwng 7 a 9 o'r gloch yn y Morlan. Croeso i ddisgyblion Blwyddyn 7 – Blwyddyn 11. Edrychwn ymlaen at eich gweld i gyd.

Ebeneser

Cafodd y Tabernacl gryn gyhoeddusrwydd ers i'r adeilad losgi a'i dynnu i'r llawr. I'r cyhoedd golygai fod darn o hanes wedi diflannu, a'r dref wedi ei hamddifadu o adeilad urddasol oedd yn rhan o'r tirlun. I ni, fel aelodau, mae'r golled yn fwy o lawer gan inni brofi o fewn y muriau rai o fendithion pennaf ein bywyd, ac mae gennym lu o atgofion am y rhai fu'n ein trwytho yn ein ffydd. Gall rhai fynd yn ôl am genedlaethau a bu eu teuluoedd ynghlwm wrth yr achos am flynyddoedd maith. Ond gwag fyddai anwybyddu llawer pennod drist a ddaeth i'n rhan, ac onid "esgeulusdod y gwylwyr" fu'r rheswm i'r achos gael ei ddirwyn i ben? Nid tristwch i gyd, chwaith, yw fod yr adeilad wedi diflannu, canys poen i unrhyw Gristion yw gweld addoldy wedi ei addasu i ddibenion eraill, a'r rheini'n aml yn amcanion llai dyrchafol.

Cyfarchion calonnog i'r holl aelodau a ffrindiau. Mae misoedd yr haf wedi pasio eleni eto, a phawb, gobeithio, wedi mwynhau ysbeidiau byr o dywydd braf. Gadewch i ni gyd, felly, wynebu Tymor yr Hydref mewn diolchgarwch ac yn llawn brwdfrydedd i gerdded yn gyson i'r oedfaon. Croeso cynnes i bawb.

Buom yn ffodus yn ystod yr haf i gael oedfaon bendithiol iawn. Unwaith eto **diolchwn** i Grwp Dr Bryn Roberts - Eleri Davies, Meleri Macdonald, Rhys Huws a Hywel Jones. Rhaid dweud bod y gwasanaethau hyn, dan ofal nifer o grwpiau o'r Morfa yn ystod y misoedd diwethaf, wedi creu rhyw ffresni i'r oedfaon ar brynhawn Sul.

Ym mis Gorffennaf, tro Ebeneser oedd hi i gynnnal Cinio Bara a Chaws. Siomedig oedd y tywydd, ond er hynny fe ddaeth cwmni cryno ynghyd o wahanol eglwysi i fwynhau sgwrs. Gwnaed elw o £161. Diolch i chwiorydd Ebeneser a chwiorydd Eglwys St Anne's am bob help, ac i bawb a gyfrannodd tuag at yr achlysur.

Ganol mis Gorffennaf bu un o'n ffyddloniaid, Mrs Joyce Knight, mewn Garddwest Frenhinol ym Mhalas Buckingham, yn gwmni i'w chwaer, Mrs Violet Holden, oedd wedi derbyn gwahoddiad fel cydnabydddiaeth o'i gwaith i achos Macmillan yn Aberystwyth.

Llongyfarchiadau i Nerys Elizabeth Powell a James Brian Lockyear ar ei priodas yn Ebeneser ar fore Sadwrn, 2 Awst, dan ofal y Parchedig Pryderi Llwyd Jones a Mrs Mary Jones Morris with yr organ. Llawenydd oedd gweld taid Nerys, sef Mr Robert John Davies (Cartref Cwmcynfelin) er ei wendid, yn mwynhau y gwasanaeth. Pob dymuniad da i'r par ifanc yn y dyfodol.

Oherwydd gwaith adeiladu yng Nghapel y Methodistaidd Saesneg yn Ty Cam, maent ar hyn o bryd yn cynnal ei gwasanaeth boreol yn Ebeneser, a hynny am ryw 6-8 wythnos. Roedd Ebeneser yn falch o dderbyn cais ei gweinidog a chael cyfle i'w croesawu i'r capel bach.

Da iawn yw cael cwmni Mrs Margaret Morgan yn ôl yn yr oedfa wedi ysbaid o anhwylder iechyd. Mae Mrs Clariss Pyle adref ar ôl ysbaid hir yn Ysbyty Tregaron ac yn gwella'n dda, a Mrs Megan J Evans sydd wedi bod yn boenus ac yn gaeth i'w haelwyd, ond yn well erbyn hyn ac yn ôl yn yr oedfa. Gobeithio bod Mrs Lilian Jenkins a Mrs Betty Davies ac unrhyw un arall o'r aelodau neu ffrindiau eraill sydd heb fod yn teimlo'n rhy dda yn ystod y misoedd diwethaf ar wellhad. Mae chwithdod mawr heb eich cwmni ar brynhawn Sul. Derbyniwch ein cofion caredig, ac mae'r

un cofion hefyd at Dai a Glenwen Richards sydd bob amser yn ddi-rwgnach ar eu haelwyd; Miss Jennie Evans (Hafan y Waun); Mrs Laura Rumsey-Williams (Cysgod y Coed); Miss Mair Jones (sydd yn reit wael yn Allt-y-Mynydd) a Mr Robert John Davies (Cwmcynfelin), ac at Mrs Mary Owen a ddathlodd benblwydd hapus iawn yn 105 oed ym Modlondeb ymysg llawer o ffrindiau, yn cynnwys Dai Jones, Llanilar. Mae Mr Arwyn Evans yn ôl adref yn Erw Goch.

Gwella hefyd mae Rhiannon ar ôl cael triniaeth ar un benglin yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar, ac wrth gwrs, yn methu dilyn eu dyletswyddau wythnosol yn y capel bach. Dim problem - fe ddaeth help ar unwaith i weithredu'r gwahanol ddyletswyddau hanfodol, felly dim and diolch yw ein cân - i Llinos am agor a chau'r capel, a chadw'r adeilad yn lân a thaclus; i Mrs Megan J Evans am ei charedigrwydd yn cludo tair o'r ffyddloniaid yn ei char i'r oedfa; i'r Athro Alun Morris sydd yn gefnogol iawn i ni, a dod i'r adwy un Sul pryd bu Megan yn rhy boenus i ddod i'r capel, a mynd i gasglu'r ffyddloniaid yn ei lle, a hefyd bod yn gyhoeddwr ar yr un Sul; Mary Jones Morris, Eleri Davies a Bryn Roberts am ganu'r organ a'r piano yn eu tro yn yr oedfaon; i Tom Morgan am dorri glaswellt y capel yn rheolaidd, ac hefyd Bill Rushton, cymydog caredig i'r capel, sydd yn falch dod i'n helpu ar unwaith ac yn reit ddiffwdan pryd y caiff `SOS'. Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Hel Meddyliau

Fuoch chi yn gwylio yr Olympics ar y teledu ym Mis Awst? Mi wnes i, a chael fy syfyrdanu dro ar ôl tro wrth edrych ar athletwyr - y fath ymroddiad, y gallu, yr harddwch, y cryfder, y disgyblaeth, y dewrder. Gweld y rhwyfwyr yn symud mor llyfn dros y dwr, y pethau anhygoel oedd y rhai yn y gampfa yn medru gwneud fel petai yn hollol ddiymdrech, y nofwyr yn llithro trwy'r dwr fel pysgod, y beicwyr fel petaent yn hedfan o gwmpas y Velodrome, mwy a mwy o gampau anhygoel heb anghofio y rhai oedd yn dioddef poen ond yn mynnu cario ymlaen –roedd y cwbwl yn wefreidddiol i mi. Roedd gweld yr holl ddynion a merched o bob lliw a llun yn rhoi o'u gorau ar ôl yr holl flynyddoedd o baratoi yn gwneud i'r cwmwl oedd yn hongian dros gynnal yr Olympics yn China godi mor bell ag yr oeddwn ni yn y cwestiwn—dim byd politicaidd, dim ond ymroddiad pur.

Wnaethoch chi sylwi sawl un oedd yn gwisgo'r groes o amgylych eu gyddfau, sawl un oedd yn gwneud arwydd y groes cyn cystadlu a sawl un oedd yn cau eu llygaid a plethu eu dwylo fel petaent yn gweddïo. Ai dim ond addurn oedd y groes, yntau rhan o'r ddefod paratoi? A oedd pobl yn gweddïo ar Dduw am nerth i wneud eu gorau, neu yn ymdawelu yn unig? Mi hoffwn feddwl mai rhywbeth dyfnach oedd yn digwydd.

Rydw i'n cofio fy nhad, oedd yn dipyn o athletwr ei hun, yn sôn am yr athletwr Eric Liddell - "The Flying Scotsman". Scotyn ifanc oedd Liddell, a christion o argyhoeddiad dwfn. Cafodd ei ddewis i gynrychioli Prydain yn yr Olympics ym Mharis yn 1924. Ond wedi'r holl baratoi, gwrthododd redeg mewn 3 ras oherwydd mai ar y Sul yr oeddynt yn cael eu cynnal. Serch hynny aeth ymlaen i ennill y 400 medr a gosod record byd newydd, er mae y 100medr oedd ei wir gryfder. Fe ddywedodd yn gyhoeddus mai rhedeg ei ras dros Dduw oedd yn gwneud. Aeth ymlaen i fod yn genhadwr, ond bu farw mewn carchar.Yr ironi trist yw mai yn China bu farw. Mae'r ffilm wych "Chariots of Fire" yn sôn am ei hanes.

Yn ei lythr i Timotheus, mae St Paul yn son am ei hun fel rhywun yn rhedeg ras: *Yr wyf wedi ymdrechu ymdrech lew, wedi rhedeg yr yrfa yn llawn, yr wyf wedu cadw y ffydd.* Mae gyda ni fel Cristnogion tipyn i ddysgu oddiwrth y cystadleuwyr yn y Gemau wrth i ni rhedeg ras bywyd, yn enwedig gan bobl fel Eric Liddell. Na, na, nid wyf yn awgrymu am eiliad ein bod ni i gyd yn gwisgo ein shorts, track suits neu spandex a rhedeg lan a lawr y Prom!! Ond yn sicr wrth dderbyn yr her, dyfalbarhau, rhoi'r gorau sydd gyda ni bob amser, peidio a chael ein llorio gan anhawsterau, ymdrechu yn gadarn, yn ddiofn, yn llawn hyder er mwyn cyrraedd y Nod.

Rhed yrfa gref drwy ras y nef,
Cod olwg fry i'w weled Ef;
Bywyd a'i her sydd i ti'n dod,
Crist yw y ffordd, a Christ yw'r nod.

Ar ddechrau mis Hydref bu Esgob Tŷ Ddewi yn annerch pob rheithor, deon, ficer, deon gwlad etc yn ei esgobaeth mewn cynhadledd undydd yn Llambed. Y pwnc dan sylw yn ei anerchiad oedd 'rhoi' - sef ymroddiad yr unigolyn i'w eglwys boed yn gasgliad rhydd, drwy amlen, rhodd, ewyllys etc. Adroddodd stori i gefnogi ei bwynt.
Mam a merch wedi bod i oedfa'r bore ryw ddydd Sul ac yn cerdded adre gyda'i gilydd. Y fam yn ddiflas tu hwnt.
'Onid oedd y canu'n sal bore 'ma?'
'Onid oedd y bregeth yn sych?'
'Onid oedd yr organ rhy uchel?'
'Onid oedd pawb yn y set fawr â wynebau hir pob un ohonyn nhw?'
'Onid oedd yr emynau'n llusgo'n ofnadwy?'
Mae'n amlwg bod y ferch fach wedi cael llond ei bol.
'Be da chi'n disgwyl am bunt?' gofynnodd hi!

Y Tabernacl ar Dân

Cyhoeddwyd y newyddion syfrdanol ar 5 Gorffennaf fod capel y Tabernacl, Aberystwyth wedi ei losgi yn ystod y nos, gan wneud difrod mawr i'r adeilad hanesyddol a restrwyd yn Adeilad Graddfa 2 gan CADW.

Cynhaliwyd y gwasanaeth olaf yn Y Tabernacl ym mis Medi 2002 ar ôl i fwyafrif aelodau'r eglwys benderfynu i uno gydag Eglwys Capel y Morfa. Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus yn y dref ffurfiwyd Gweithgor Capel y Tabernacl, yn cynnwys cyn-aelodau'r eglwys a chynrychiolwyr o Gyngor y Dref a Chyngor Ceredigion. Llwyddwyd i sicrhau tystysgrif gan yr 'Institute of British Organ Studies' ar gyfer yr organ hanesyddol a adeiladwyd gan gwmni enwog Harrison & Harrison, Durham, Yn ffodus, fe'i tynnwyd i lawr llynedd a'i chludo i stordy yn Ne Lloegr hyd nes iddi gael ei hail-adeiladu yn Eglwys St Jude's, Southsea, eglwys fywiog sydd ar hyn o bryd yn cael ei hadnewyddu.

Ymdrechwyd i sicrhau defnydd priodol i'r capel., ond yn anffodus ni lwyddwyd i wireddu bwriad i droi y capel yn amgueddfa, a hefyd defnyddio'r organ ar gyfer datganiadau cyhoeddus. Gwerthwyd y capel yn 2005 a deëllir y cynlluniwyd troi'r adeilad yn fflatiau.

Er gwaethaf y tân, diogelwyd y gofeb rhyfel, a godwyd gerllaw'r capel yn Stryd Powell, ac sydd hefyd wedi ei rhestru gan CADW. Mae'n enghraifft nodedig o waith Mario Rutelli, y cerflunydd Eidalaiddd, a fu'n gyfrifol am nifer o gerfluniau eraill pwysig yn y dref. Hefyd, gosodwyd o'r neilltu y plac a fu'n

hongian ar wal y festri yn cofnodi mai yma yn 1823 y llofnodwyd Cyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd.

Y Tabernacl oedd un o gapeli hanesyddol pwysicaf Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a dyfynnir, yng nghyfrol Dr. Moelwyn Williams, Y Tabernacl Aberystwyth, 1785-1985 (1986), sylw y Parchg. Tom Beynon i'r Tabernacl gyfrannu mewn arian, talent, dylanwad, gymaint, os nad mwy, nag unrhyw gapel arall yn y Cyfundeb.

Yr oedd y capel i'w weld o bellter, a chanlyniad y tân yw diflaniad rhan annatod o'r treflun lleol sydd yn atgoffa'r trigolion lleol ac ymwelwyr â'r dref am adeilad a gyfrannodd yn helaeth at fywyd crefyddol a diwylliannol Aberystwyth.
Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd a chyngherddau pwysig yn y capel, a dangosir rhai o weithgareddau amrywiol aelodau'r eglwys, ynghyd â lluniau o'r capel cyn ac wedi'r tân, yn yr arddangosfa a welir yn Amgueddfa Ceredigion tan 20 Medi

D. Huw Owen

Tabernacl

Yn 1785 adeiladwyd capel o'r enw Capel y Groes yn Mill Street: Methodistiad oedd yn addoli yno – Cristnogion oedd wedi cael eu llenwi a llawenydd, cynhesrwydd a moliant y diwygiad oedd ar gerdded trwy Gymru dan ddylawnad Williams Pantycelyn, Daniel Rowland a Hywel Harris. Nid oedd Llangeitho ym mhell ac yr oedd Methodistiaid wedi dechrau addoli yng Ngosen Rhydyfelin eisioes.

Erbyn 1819 roedd y gynulleidfa wedi mynd yn rhy fawr i'r adeilad ac adeiladwyd ail gapel a'i alw yn Tabernacl.Ystyr Tabernacl yw 'pabell' â'r enw yn arwydd na ellir cynfyngu gwaith yr Ysbryd i fan na lle na chyfnod. Erbyn 1811 yr oedd y Methodistiaid wedi cael eu gwthio i adael yr Eglwys Anglicanaidd ac wedi ffurfio'n enwad ac yn yr ail gapel hwn – ym Mawrth 1823 – y gosodwyd sylfaen athrawiaeth yr enwad trwy dderbyn (ar ôl llawer o drafod) y Gyffes Ffydd fel datganiad o ffydd a chred.Yr oedd cofeb yn cofnodi hynny yn festri Tabernacl.

Parhau i dyfu oedd yr eglwys, ac yn arbennig trwy ddylanwad y mudiad mwyaf dylanwadol y dydd, sef yr Ysgol Sul. Adeiladwyd capel newydd arall yn 1831 a lle i 1,100 ynddo, er nad oedd dim ond 230 o aelodau. Ond dyma oes aur y 'gwrandawyr' hefyd ac yr oedd, mae'n debyg, dros 1,400 yn y Tabernacl.Yr oedd y gweithgarwch a'r ysbryd cenhadol yn anhygoel ac yn y cyfnod hwn fe adeiladwyd achosion a changhennnau eraill o gwmpas y dref: Skinner Street 1839, Saron Llanbadarn 1842, Ebeneser 1848, Seilo 1863, Tanycae 1877 a Threfechan 1897. Yn yn cyfnod hwn daeth Thomas Lefi yn weinidog cyntaf ar yr eglwys yn 1876 – yr enwog Thomas Lefi a fu'n golygu Trysorfa'r Plant am 50 mlynedd. Yn y cyfnod hwn hefyd – yn 60au'r ganrif – yr oedd cynifer a 700 yn yr Ysgol Sul (y mwyafrif yn oedolion) a hynny heb gynnwys y rhai oedd yn y canghennau. Fe gofnodir yn 1861 (pan oedd diwygiad 1859 yn cael dylanwad mawr) ymhell dros 1000 yn yr Ysgol Sul.

Yn 1878 penderfynwyd adeiladau capel newydd ar yr un safle ond fe fyddai'r capel hwn yn cynnwys galeri. Erbyn hyn hefyd yr roedd y fynedfa yn wynebu Powell Street.Yr oedd yr aelodaeth yn 619. Agorwyd y capel yn Awst 1880. Ar ddechrau'r ganrif – yng ngwres Diwygiad 1904 – y prynwyd organ am £1,250.

Arglwydd pobl tabernacl,
y Duw symudol sydd wedi arwain dy bobl
i fod yn dystion dros dro i'r Duw tragwyddol,
diolch am y rhai dros y canrifoedd
sydd wedi bod yn gyfrwng yn dy law di
i fentro'n hyderus i'r dyfodol,
i gael eu llenwi a thân dy Ysbryd,
i lafurio i hyfforddi eu cenhedlaeth yn Dy Air,
i gyhoeddi Arglwyddiaeth Dy Fab,
i blygu o flaen yr Hollalluog,
ac i ganu mawl mewn gorfoledd.

Diolch y bydd Tabernacl Aberystwyth
yn parhau yn gôf
o'r fendith a'r bywyd a fu.

Ond diolchwn heddiw, Arglwydd
dy fod yn parhau yn Arglwydd
a thrwy dy Fab yn bresenoldeb byw yn ein plith:
hyd yn oed mewn dyddiau
pan fo'r galeri wedi gwagio,
pan fo'r addolwyr wedi mynd i'r festri,
pan fo'r tabernacl yn rhy fawr
yr adeilad yn dirywio,
ei gynnal yn faich
a'th bobl yn ofnus.

Diolch dy fod yn galw dy bobl
yn arbennig mewn cyfnod felly,
(ac mewn cyfnod fel hyn)
pan fo'n gwlad yn llawn tabernaclau gwag
yn ddim ond cofebau Cadw.
Diolch dy fod yn eu galw
i gerdded eu pererindod
o dabernacl i dabernacl
gydag arwyddion capel y Groes:
y Gair nad oes grym i'w garcharu,
y moliant nad oes dinistr i'w ddistewi,
y gymdeithas nad oes amgylchiadau i'w chwalu,
y Gwaredwr nad oes na bedd na thân,
na grym na gelyniaeth,
na dioddefaint na marwolaeth,
all atal fywyd anorchfygol ei Atgyfodiad.
Amen

Gorffennaf 13, 2008
(Trannoeth wedi dymchwel Tabernacl ar ôl y tân a'i difrododd)

SALEM A MORLAN YN BERLIN

Yn ystod sesiwn agoriadol cynhadledd ar y thema ‘Protestaniaid yn Arlunwyr Bob Dydd’, a drefnwyd yn Berlin ar gyfer lleygwyr ddechrau mis Gorffennaf gan Gymuned Eglwysi Protestannaidd Ewrop, tynnwyd sylw at ddarlun Albrecht Durer, ‘Dwylo yn gweddïo’, a ystyrir yn eicon duwioldeb Protestannaidd.

Dangoswyd eitemau amrywiol gan y cynrychiolwyr i’r gynhadledd, sef aelodau eglwysi yn yr Almaen, Awstria, Cymru, Yr Eidal,Yr Iseldiroedd, Latfia, Gwlad Pwyl, Rwmania a’r Weriniaeth Siec. Un eitem a ddenodd diddordeb mawr oedd darlun Curnow Vosper, *Salem*, sydd yn dathlu ei ganmlwyddiant eleni. Yn y drafodaeth ar y darlun hwn cyfeiriwyd at y newidiadau yn arferion crefyddol Cymru yn ystod y ganrif ers cynhyrchu’r darlun,

a'r cynnydd mewn seciwlariaeth a materoliaeth: themau a oedd yn berthnasol i'r cynrychiolwyr eraill..

Cyfeiriwyd at safbwyntiau negyddol tuag at gelf yn y gorffennol, yn enwedig gan yr eglwysi hynny a ddylanwadwyd yn sylweddol gan John Calfin, ond hefyd at yr agweddau mwy cadarnhaol a amlygir heddiw. Dangoswyd i ni weithiau celf pwysig a arddangosir mewn nifer o eglwysi a adnewyddwyd wedi chwalfa'r Ail Ryfel Byd. Ymhlith y rhain yr oedd y *Berliner Dom*, yr Eglwys Gadeiriol, eglwys ysblennydd sy'n ail-greu eglwys bersonol yr Ymerawdwr Wilhelm I, ac sy'n cynnwys nifer o ffenestri lliw, darluniau Beiblaidd, a cherfluniau trawiadol o'r efengylwyr, apostolion ac arwyr y Diwygiad Protestannaidd; Eglwys St. Matthäus sydd â chysylltiad agos â Dietrich Bonhoeffer, y diwinydd a gafodd ei ddienyddio yn nyddiau olaf yr Ail Ryfel Byd; ac eglwys *Marienkirche*, eglwys hynaf Berlin yn dyddio nôl i'r drydedd ganrif ar ddeg. Yno, cafwyd cyfle i weld un o furluniau hynaf Ewrop, sef y ffresco 'Dawns Marwolaeth' a wnaed , mae'n debyg, tua chanol y bymthegfed ganrif pan drawyd Berlin gan y Pla Du, ac sydd yn pwysleisio hollgyffredinolrwydd

marwolaeth gyda dawnswyr o bob gradd o gymdeithas yn cael eu harwain i'r bedd.

Fe'n hatgoffwyd am un digwyddiad diddorol yn y *Marienkirche* gan Tina Schwichtenberg, sef adnodau yn y wyddor Braille a osodwyd ar furiau mewnol yr eglwys hon. Gweithiau eraill gan yr arlunydd a wnaeth argraff arnom oedd y gyfrol hardd o weithiau Lenin, wedi ei rhwymo mewn lledr, ond gyda'r tudalennau wedi eu rhwygo mewn *shredder,* a'r gêm wyddbwyll gyda'r ffigurau i gyd wedi eu gwisgo mewn cuddliw gwyrdd milwrol a'r gwrthwynebwyr felly yn methu adnabod eu gelynion ac heb weld unrhyw reswm i ryfela.

Gweithiodd yr arlunydd hon mewn stiwdio yn Nwyrain Berlin cyn Gwrthryfel 1989 a arweiniodd at uno gwlad a phrifddinas Yr Almaen. Bu digwyddiadau y cyfnod hwn yn drobwynt yn hanes nifer o'r eglwysi a gynrychiolwyd, a phrofiad cyffredin i nifer o'r cynrychiolwyr oedd y cyfnod a dreuliwyd dan lywodraeth Gomiwnyddol. Er na chyfeiriwyd yn aml at y cyfnod hwnnw, mynegwyd droeon y llawenydd o weld cynnydd wedi'r rhyddid a ganiatawyd gan lywodraethau mwy cefnogol.

Lleiafrif ymhlith Cristnogion eu gwlad oedd nifer ohonynt, ond llwyddwyd i ddatblygu perthynas adeiladol gydag eglwysi eraill a phobl di-gred. Yn y cyswllt hwn tynnwyd sylw at weithgareddau yn y Morlan, a chyfeiriwyd yn arbennig at y cyfarfod llynedd pan drafodwyd cydweithrediad gwleidyddol rhwng Cristnogion â rhai sydd â chred wahanol a'r di-gred; a'r ddarlith yn gynharach eleni am y berthynas agos rhwng crefydd a gwyddoniaeth.

Siaradwyd nifer o ieithoedd yn y Gynhadledd, ond y brif iaith oedd Almaeneg, gyda darpariaeth cyfieithu i'r Saesneg. Defnyddiwyd y ddwy iaith yn yr oedfaon a gynhaliwyd bob bore, ac ar adegau eraill. Gofynnwyd i ni gyflwyno un emyn yn ein mamiaith, a chafwyd ymateb cadarnhaol i'r emyn 'Diolch i ti'; ac i'r adroddiad am boblogrwydd yr emyn yng Ngogledd-Ddwyrain yr India.

Yn ystod yr ychydig ddyddiau a dreuliwyd yn y Gynhadledd daeth y cynrychiolwyr yn ymwybodol o'r amrywiaeth enfawr yn ein sefyllfaoedd a'n cefndir diwylliannol, ond hefyd, yn bwysicach na'r rhain, ein treftadaeth gyffredin fel Protestaniaid a'r Ffydd sydd yn ein huno.

D. Huw Owen

Pwyllgor Cenhadol Chwiorydd
Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

Bydd y cyfarfod cyntaf o dan ofal y pwyllgor uchod yn cael ei gynnal yng Nghapel Blaenannerch brynhawn Sadwrn, Hydref 4, 2008 am 2.30 o'r gloch.

Disgwylir Mrs Anne Davies, Goginan, Aberystwyth i annerch.

Bydd chwiorydd Blaenannerch yn gyfrifol am y gwasanaeth dechreuol a gofynnir i bawb ddod â chopi o *Caneuon Ffydd* ar gyfer yr emynau.

Gwneir casgliad yn y cyfarfod a gwahoddir pawb i fwynhau'r te a ddarperir gan chwiorydd Blaenannerch.

Byddwn yn falch o groesawu'r brodyr yn ogystal â'r chwiorydd i'r cyfarfod. Gobeithiwn gael cefnogaeth dda er mwyn sicrhau dechrau teilwng i'n gwaith yn yr Henaduriaeth newydd eang hon.

DYDDIADUR Medi 2008

Gwasanaethau'r Sul 10.00 a 6.00 yn Y Morfa; 2.15pm yn Ebeneser

7 Dr Rhidian Griffiths. Cymun yn y Bore.
14 Y Parch. Aled Davies yn y Bore ac yn Ebeneser. Y Parch Raymond Jones yn yr Hwyr.
21 Y Parch. Nerys Tudor.
28 Y Parch Raymond Jones yn y Bore (gwasanaeth teuluol) ac yn Ebeneser. Y Parch. Roger Ellis Humphreys yn yr Hwyr.

Ysgol Sul

Oedolion ar ôl y gwasanaeth

Hwyl Hwyr

ail ddechrau prynhawn Llun 22 Medi 3.45-5.00

Clwb Ieuenctid

ail ddechrau nos Wener 18 Medi 7.30-9.30 yn y Morlan

Cylch Gweddi a Choffi

bore Mawrth am 10.30 am

Cyfarfodydd Wythnosol

pob nos Iau am 7.00pm

Cymorth Cristnogol

8 Cinio Bara a Chaws yn Nghapel y Morfa

Golygyddion y mis hwn yw Hywel Lloyd a Laurie Wright. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Hydref o PERTHYN, os gwelwch yn dda, atyn nhw (e-bost: hywel.lloyd@ukonline.co.uk; post@lauriewright.plus.com) erbyn dydd Gwener, 19 Medi.

SWYDDOGAETHAU Medi 2008

Blaenor y Mis Miss Gwerfyl Pierce Jones

Porthorion Dr. Alun Morris; Dr. W.J. Cynfab Roberts; Mrs. Celia Jones

Ebeneser Mrs. Mattie Shaw

Blodau'r Cysegr - Y Morfa

7 Mrs. Betty Griffiths
14 Mrs Iola Jones
21 Mrs M. Nantlais Williams
28 Mrs Gwennant Gillespie

Blodau Ebeneser

7 Mrs Brenda Griffiths
14 Mrs Joyce Knight
21 Mrs Blod Isaac
28 Mrs Sian Powell

Cynorthwywyr Llestri Cymun

7 Mrs Marlene Gealy; Mrs Mari Turner; Mrs Maggie Edwards

Cynorthwywyr Ariannol

7 Mr. a Mrs. William Griffiths
14 Mrs. Beti Roberts a Mrs. Blodwen Williams
21 Dr a Mrs Alun Morris
28 Mr. E. Meirion Morgan a Mr. David Harries

Tregerddan

28 Dan ofal Dr. Alun O. Morris